




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Lleihau'r defnydd o Blastig Untro

Cynigion i wahardd neu gyfyngu  
ar werthiant naw cynnyrch plastig  
untro yng Nghymru



Dyma ddogfen **Hawdd ei Deall** gan  
Llywodraeth Cymru

## TROSOLWGW – beth rydym ni eisiau ei wneud

Mae plastig ymhob man.

A hynny am ei fod yn rhad, yn hawdd i'w wneud ac mae'n gallu bod yn ddefnyddiol.

Does dim modd ailgylchu rhai mathau o blastig ac felly mae'n diweddu ar y domen sbwriel.



Weithiau, mae pobl yn ei daflu ar y stryd neu'n ei fflysio i lawr y toiled ac mae hynny'n wael i'r amgylchedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhestr o rai o'r cynhyrchion plastig mae'n credu sy'n broblem – cynhyrchion mae am weld pobl yn rhoi'r gorau i'w taflu.




Hoffem gael eich barn ar y rhestr hon ac os ydych chi'n credu y bydd yn ein helpu i ofalu am ein moroedd a'n traethau a gwarchod ein bywyd gwyllt.

## Cyflwyniad

### Y broblem gyda Phlastig Untro

Gall plastig fod yn rhan bwysig o'n bywydau bob dydd, ond mae rhai cynhyrchion plastig yn cael eu taflu ar ôl eu defnyddio unwaith yn unig.



Pan fyddan nhw'n cael eu gollwng ar y llawr, gallant fynd i mewn i ddraeniau ac afonydd cyn golchi i'n moroedd ac ar ein traethau.

Mae gwaith casglu sbwriel ar draethau'n aml yn dod o hyd i lawer o gynhyrchion plastig untro sydd wedi'u taflu gan bobl ar ôl bwyta neu yfed rhywbeth.



Caiff cynhyrchion plastig eraill eu fflysio i lawr y toiled ac maen nhw'n llifo i'r môr yn y pen draw drwy'r system garthffosiaeth.



Fe allai anifeiliaid y môr fwyta'r plastig hwn a mynd yn sâl.

Mae sbwriel plastig sy'n cael ei olchi ar ein traethau yn eu gwneud yn llefydd budr ac annymunol iawn.

Dyma restr o'r cynhyrchion plastig untro yr hoffai Llywodraeth Cymru wneud rhywbeth amdany'n nhw.



Ffyn cotwm plastig.



Llwyau, cyllyll a ffyrc plastig.



Troellwyr diodydd.



Gwellt.




Cwpanau untro wedi'u gwneud o bolystyren.



Cynwysyddion bwyd tecawê wedi'u gwneud o bolystyren.



Platiau plastig.



Ffyn balwŵn.




Byddwn hefyd yn gwahardd pethau wedi'u gwneud o blastig ocso-bioddiddiraddiadwy.

Mae ocso-bioddiddiraddiadwy yn golygu ei fod yn dadelfennu'n ddarnau mân ond byth yn diflannu. Mae'r darnau bach hyn yn gallu niweidio anifeiliaid a phlanhigion.

---

## Yr hyn rydym am ei wneud



**RECYCLE**

Hoffem greu deddf newydd a fydd yn atal pobl rhag gwerthu'r cynhyrchion plastig untro hyn neu ei gwneud yn anoddach iddyn nhw gael eu gwerthu.

Rydym am i bobl brynu cynhyrchion sy'n fwy llesol i'r amgylchedd, y gellir eu hailgylchu'n hawdd neu hyd yn oed eu hailddefnyddio fwy nag unwaith.

Drwy wneud hyn byddwn yn lleihau faint o gynhyrchion plastig untro sy'n cael eu taflu ac sy'n glanio ar ein strydoedd a'n traethau.

## Sut i ymateb



Mae nifer o gwestiynau i chi eu hateb ar ddiwedd y ddogfen hon.

Gallwch wneud hyn drwy lenwi'r taflenni isod a'u dychwelyd drwy'r post neu e-bost.



Gallwch hefyd fynd i'n gwefan.

---

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

---

## Manylion cyswllt am fwy o wybodaeth:

Is-adran Ansawdd yr Amgylchedd  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Goron  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [EQR@llyw.cymru](mailto:EQR@llyw.cymru)

Ffôn: 0300 060 4400

**Llenwch y manylion isod, ac anfonwch hwy gyda'r cwestiynau.**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

Math o Sefydliad:

E-bost:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad:

## Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno â'n cynllun i leihau faint o blastig untro a ddefnyddir yng Nghymru?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Os nad ydych chi, pam felly?



## Cwestiwn 2

Allwch chi feddwl am unrhyw eitemau plastig untro eraill y dylem eu cynnwys ar y rhestr a nodwyd ar ddechrau'r holiadur hwn?

Gallaf

Na

Ddim yn gwybod

Os gallwch chi, dywedwch beth?